# FFORDD GWYNEDD

# CANLYNIADAU GWASANAETH CYNALIADWY MEWN CYFNOD HERIOL

## Dogfen Strategol Gychwynnol



***H. Thomas***
***Prif Weithredwr***
***Chwefror 2013***

# FFORDD GWYNEDD

## 1.0 CYFLWYNIAD

### 1.1 Pam bod gofyn i ni newid ymhellach y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid, dinasyddion a chymunedau?

Yr ateb yw bod yr her ariannol dros y pum mlynedd a mwy nesaf gymaint fel nad yw parhau gyda'n model busnes traddodiadol yn ddigonol i osgoi toriadau sylweddol i wasanaethau. Mae hyn yn debygol o arwain at ganlyniadau cymdeithasol negyddol cynyddol a fydd, yn y pendraw, yn golygu mwy o alw ar ein gwasanaethau a allai arwain at gylch anfad. Mae gofyn cael dull gwahanol sy'n rhoi cyfle i Wynedd gael canlyniadau gwasanaeth cynaliadwy.

### 1.2 Beth fyddai ynghlwm â'r dull gwahanol?

Byddai'n golygu dwysáu ein hymdrechion i wneud arbedion effeithlonrwydd; ond, y newid mwyaf fyddai ychwanegu dimensiwn newydd i'n strategaeth. Byddai'r dull newydd yn canolbwyntio ar reoli'r galw am wasanaethau, yn bennaf, ond nid yn gyfyngedig, drwy atal ac ymyrraeth gynnar mewn modd mwy systematig, strwythuredig a strategol na'r hyn sydd wedi bod yn digwydd hyd heddiw.

### 1.3 Sut y bydd yn cael ei gyflawni?

Lle da i ddechrau fyddai drwy adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn bodoli a mapio ac arfarnu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gweithgareddau presennol. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn ddigon. Ynghyd â'i bartneriaid, bydd gofyn i'r Cyngor:-

- Weithredu'n greadigol i ymelwa ar adnoddau newydd – yn ariannol ac yn anariannol.
- Ymgymryd â rheoli'r galw mewn meysydd newydd.
- Bod â'r capasiti a'r gallu i weithredu'n fwy ar sail busnes gyda'r isod:-
    - adnabod y meysydd mwyaf effeithiol ar gyfer ymyrryd
    - targedu'r bobl a'r cymunedau cywir
    - dewis y ffordd orau i ymyrryd
    - dod o hyd i'r ffordd orau i sicrhau ymglymiad pobl a chymunedau gan mai eu galw nhw am wasanaethau yr ydym yn ceisio'i leihau
    - mesur ac arfarnu llwyddiant

1.4 **A fydd y strategaeth hon yn llwyddiannus?**

Mae tystiolaeth ddigonol i awgrymu y gallai lwyddo. Bydd llawer yn dibynnu ar gapasiti'r Cyngor a'i bartneriaid i newid ac ennill y sgiliau a'r meddylfryd angenrheidiol i lwyddo. Bydd hyn yn cynnwys rhoi mwy o bwyslais o rôl ddeuol – darparwr a galluogwr. Efallai mai ein gallu i ymgysylltu'n effeithiol â phobl a chymunedau Gwynedd i ffurfio perthynas newydd gyda gwasanaethau cyhoeddus fydd y ffactor hanfodol er mwyn llwyddo. Bydd y berthynas hon yn gweld mwy o ddinasyddion yn symud o fod yn bobl sy'n derbyn gwasanaethau yn oddefol i fod yn gyfranogwyr gweithredol. Perthynas ble bo mwy o gydymddibyniaeth yn dod i'r amlwg rhwng gwasanaethau cyhoeddus a'r gymuned. Byddai gan gydymddibyniaeth o'r fath sail gadarn oherwydd pobl Gwynedd, heddiw a ddoe, sydd wedi talu am wasanaethau cyhoeddus Gwynedd, ac mewn gwirionedd yn berchen arnynt, gyda'r Cynghorwyr yn gweithredu fel ceidwaid. Felly, mae llwyddiant hefyd yn ddibynnol ar archwaeth y dinasyddion a'r cymunedau i newid er mwyn cael y mwyaf o'u busnesau cyhoeddus nhw eu hunain.

## 2.0 **<u>CEFNDIR – Y CYD-DESTUN ARIANNOL</u>**

2.1 Bob blwyddyn am yr wyth mlynedd diwethaf mae'r Cyngor wedi gorfod ymdrin â diffyg yn y gyllideb. Hyd heddiw, yr arbedion cronnus yw £29m. Mae strategaeth ariannol tymor canolig y Cyngor am y cyfnod pedair blynedd 2013/14 i 2016/17 yn rhagweld diffyg o £25m yn y gyllideb. Felly, bydd gofyn i'r Cyngor arbed bron cymaint eto yn hanner yr amser.


2.2 Fodd bynnag, mae'n eithaf posib y bydd yr her yn fwy na hynny ac yn parhau am gyfnod hwy. Mae'r rhagolwg o berfformiad yr economi, sy'n waeth na'r disgwyl, yn golygu nad yw lefel y ddyled gyhoeddus wedi disgyn i'r lefelau y cynlluniwyd ar eu cyfer. Yn ôl yr I.F.S[1] (*Institute of Fiscal Studies*):-

"*Erbyn diwedd 2012/13 ... bydd 21% o'r toriadau i wariant dydd i ddydd ar wasanaethau cyhoeddus wedi'u cyflawni*".

Mewn geiriau eraill, mae llawer mwy i ddod.

2.3 Yn ogystal, mae perygl y bydd Llywodraeth Cymru yn newid pwyslais ac yn symud i warchod y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru ar draul Llywodraeth Leol. Roedd hwn yn un o'r materion a amlygwyd mewn adroddiad arall gan yr I.F.S. ar Wariant Llywodraeth Leol yng Nghymru[2]. Mae profiad yng ngogledd Cymru yn awgrymu na fydd parhau â'r lefel bresennol o arbedion o fewn Iechyd yn y tymor canolig yn gynaliadwy ac mae gwybodaeth anffurfiol yn awgrymu bod newid i roi mwy o warchodaeth i Iechyd ar y gweill.

2.4 Yn Lloegr, mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol yn rhagweld y bydd y bwlch cyllidol i Gynghorau yn cynyddu hyd at 2019/20.




Ffynhonnell: LGA 2013

Hyd heddiw, mae'r arbedion gofynnol yn Lloegr wedi bod yn fwy nag yng Nghymru. Cyhoeddodd y Swyddfa Archwilio Cenedlaethol adroddiad[3] yn ddiweddar sy'n adolygu cynaladwyedd ariannol Cynghorau. Mae'r adroddiad yn rhoi enghreifftiau o ba effaith mae arbedion yn eu cael ar wasanaethau. Er enghraifft, mae canran y Cynghorau sy'n cyfyngu cymhwyster i ofal cymdeithasol ar gyfer oedolion i anghenion "sylweddol" neu "hanfodol" wedi cynyddu o 53% yn 2005/6 i 85% yn 2012/13. Enghraifft arall oedd y lleihad o £38miliwn (gostyngiad ariannol o 7.3%) yng nghyllidebau llyfrgelloedd mewn un flwyddyn – 2011/12.


2.5 Mae cynllun ariannol tymor canolig Cyngor Gwynedd yn rhoi newyddion da a drwg i ni.

| | 2013/14 £'m | 2014/15 £'m | 2015/16 £'m | 2016/17 £'m | Cyfanswm £'m |
|---|---|---|---|---|---|
| Diffyg a ragwelir | 1.9 | 4.7 | 9.8 | 8.4 | 24.8 |
| Cynllun Arbedion | (3.7) | (4.6) | (0.4) | — | 8.7 |
| I'w ddarganfod | (1.8) | 0.1 | 9.4 | 8.4 | 16.1 |


2.6 Y newydd drwg yw y bydd yr her ariannol llawer mwy ar ôl 2014/15 ac, o gofio'r dystiolaeth mewn paragraffau blaenorol, mae'n debygol o barhau am sawl blwyddyn. Cyfartaledd lefel yr arbedion effeithlonrwydd a gyflawnwyd gan y Cyngor dros y pum mlynedd diwethaf yw £4.6m. Hyd yn oed os yw'r Cyngor yn llwyddo i gynnal y lefel hon a'i chynyddu'n sylweddol hyd yn oed, bydd bwlch ariannol yn dal i fodoli y bydd yn rhaid ei ddatrys drwy dorri gwasanaethau.

2.7 Y newydd da yw bod gan y Cyngor gynlluniau effeithlonrwydd cadarn yn eu lle i ddiwallu'r her ariannol ac osgoi toriadau gwasanaeth dros y ddwy flynedd nesaf. Un o rinweddau'r Cyngor, ers sawl blwyddyn bellach, yw bod yr aelodau etholedig a'r swyddogion yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio prosiectau effeithlonrwydd ymhell ymlaen llaw. Mae aelodau hefyd wedi bod yn bendant wrth gymeradwyo prosiectau ac wedi gweithio'n dda gyda swyddogion i fabwysiadu trefniadau rheoli prosiect cryf i sicrhau bod yr arbedion yn cael eu cyflwyno. Mae gofyn i ni adeiladu ar y cryfder hwn a defnyddio'r ddwy flynedd nesaf i hau hadau dull newydd gan fod dwysáu'r arbedion effeithlonrwydd yn annhebygol o fod yn ddigonol i osgoi torri gwasanaethau.

2.8 Mae'r dull traddodiadol i ymdrin â'r bwlch cyllidebol wedi bod yn un dimensiwn yn yr ystyr ei fod yn ymwneud â chanolbwyntio ar ymestyn adnoddau sydd wedi'u lleihau drwy fesurau effeithlonrwydd i fodloni galw cynyddol am wasanaethau. Bydd parhau â'r dull hwn yn cael yr effaith a ddisgrifir isod:




2.9 Dull gwahanol fyddai dwysáu'r chwilio am arbedion effeithlonrwydd ond hefyd mynd i'r afael â'r pwysau ar alw sydd, yn ogystal â'r adnoddau sy'n cael eu cwtogi, yn cyfrannu at y bwlch ariannol.




Gyda'i bartneriaid, mae'r Cyngor eisoes yn ymwneud â rhai cynlluniau sy'n bwriadu cael effaith ar y galw. Fodd bynnag, ni allwn ddadlau ein bod wedi mabwysiadu dull strwythuredig, systematig a strategol i reoli'r galw sydd hefyd yn cysylltu canlyniadau cymdeithasol cadarnhaol â chyllidebau.

## 3.0 **RHEOLI'R GALW**

3.1 Wrth gymharu â'r systemau a ddefnyddiwyd gan y sector preifat i gynyddu galw (e.e. marchnata), nid yw'r cysyniad o reoli'r galw yn y sector cyhoeddus i leihau costau, yn aeddfed iawn. Yn gyffredinol, mae'n syrthio i ddau gategori:-

(A) Lleihau neu ffrwyno lefel y galw.

(B) Trosglwyddo costau'r galw i unigolion a chymunedau.

3.2 Gall lleihau lefel y galw gynnwys yr isod:-

(i) Osgoi'r galw drwy weithgareddau ataliol.

(ii) Symud y galw o gategorïau dwys, ac felly drud, i gategorïau mwy cymedrol drwy ymyrraeth gynnar.

(iii) Osgoi galw yn sgil methiant (digwyddiadau niferus o'r un broblem) drwy gael pethau'n iawn y tro cyntaf gan ddefnyddio technegau megis meddylfryd systemau.

(iv) Cyfatebu cyflenwad gyda'r galw gwirioneddol.

Weithiau, gall y sector cyhoeddus fod yn euog o orgyflenwi. Gall hyn godi, er enghraifft, pan nad yw pecynnau gofal yn cael eu hadolygu mewn modd amserol i sicrhau cysondeb â'r angen gwirioneddol. Hefyd, gall godi o nodwedd llawer dyfnach o wasanaethau pobl y sector cyhoeddus sef bod yr angen sydd wedi'i asesu yn bennaf seiliedig ar "fodel diffyg" yn hytrach na "model yn seiliedig ar asedau". Golyga hyn nad ydym yn adeiladu ar gryfderau pobl a chymunedau a gall arwain at fwy o ddibyniaeth a galw uwch am wasanaethau.

3.3 Gall trosglwyddo costau'r galw gynnwys yr isod:-

(i) Newid sianeli -

(ii) Personoli -

(iii) Trosglwyddo cyfrifoldeb i wirfoddolwyr/cymunedau -


(iv) Trosglwyddo mwy o gostau i ddefnyddwyr -

(v) Cyd-greu atebion llai costus i wasanaethau gyda defnyddwyr gwasanaeth a chymunedau -

3.4 Er y byddai'r strategaeth hon yn mynd i'r afael â'r holl gyfleoedd sydd wedi'u rhestru ym mharagraffau 3.2 a 3.3 uchod, y buddsoddiad fydd yn esgor ar y canlyniadau mwyaf yw lleihau'r galw drwy atal ac ymyrraeth gynnar. Mae buddion y dull hwn yn driphlyg:

- gwell canlyniadau cymdeithasol
- costau is
- mwy o wydnwch

Mae'r nodweddion hyn wedi'u crynhoi yn y diagram isod:




4.0 **<u>FFOCWS AR ATAL AC YMYRRAETH GYNNAR</u>**

4.1 Y blaenoriaethau cyffredinol fyddai:-

- targedu gwasanaethau i leihau anghydraddoldeb
- symud peth adnoddau er mwyn cyflwyno gwasanaethau ataliol
- sicrhau ein bod yn cyflawni'r effaith uchaf posib am ein gwariant

4.2 Mae'r athroniaeth wedi'i chrynhoi mewn cyhoeddiad gan y *New Economics Foundation* dan y teitl *"The Wisdom of Prevention"*[4].

*"We must get better at preventing harm – to people, planet and economy. This calls for long-term planning, upstream investment and early action. It will improve people's quality of life, make better use of public money, reduce the need for costly state services and help to safeguard the future. Preventing harm is essential if we are to make the great transition to a sustainable future".*

4.3 Ceir tystiolaeth ar lefel uchel y gall atal ac ymyrraeth gynnar arbed arian e.e.:

- Adroddiad *Scottish Finance Committee*[5] sy'n adrodd y gallai ymyrraeth effeithiol 100% o gyn-geni i wyth oed arbed hyd at £131m y flwyddyn fel man cychwyn.

- Mae *Futures Forum* yr Alban wedi defnyddio tystiolaeth sy'n hawlio bod tua 40-45% o wariant cyhoeddus yn negyddol h.y. gwariant byrdymor wedi'i anelu at fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol.

- Mae cwmni ymgynghori wedi amcangyfrif yn ddiweddar y byddai gweithredu rheoli'r galw yn dod ag arbedion posib o £500m y flwyddyn i Lywodraeth Leol yng Nghymru[6].

4.4 Strwythur bosib ar gyfer mynd i'r afael â rheoli'r galw fyddai categoreiddio yn ôl cyfnod bywyd:-

- Plant a Theuluoedd – cyn-geni, beichiogrwydd, blynyddoedd cynnar, oed ysgol, trawsnewid i fod yn oedolion.

- Oedolion – gwasanaethau cyffredinol e.e. ailgylchu gwastraff.

- Pobl hŷn

Gallai Iechyd Cyhoeddus gael ei gategoreiddio fel thema sy'n ehangu ar draws bob un o'r cyfnodau bywyd.

Byddai ymyraethau cyfnod bywyd ym mhob oed yn esgor ar fuddion, ond mae'r buddion mwyaf yn dod gan blant a theuluoedd. Ymdrinnir â pheth tystiolaeth am hyn yn fanylach yn yr adran nesaf.

## 5.0 PLANT A THEULUOEDD

5.1 Er mwyn deall cyfleoedd bywyd plentyn, mae'n bwysig deall pwysigrwydd datblygiad cynnar yr ymennydd. Mae ffurfio sgiliau yn dechrau yn y groth. Mae babanod yn cael eu geni gyda 25% o'r ymennydd wedi'i ddatblygu. Yn debyg i adeiladu tŷ, mae'r broses adeiladu yn dechrau gyda gosod y seiliau ac mae cryfder y seiliau hyn yn hollbwysig i lwyddiant bob dim a ddaw wedi hynny. Y cyfnod mwyaf sensitif ar gyfer datblygiad gwahanol sgiliau bywyd yw'r 36 mis cyntaf ac erbyn hynny, mae 80% o'r ymennydd wedi'i ddatblygu.

5.2 Mae dylanwadau rhyngweithiol genynnau a phrofiad yn ffurfio'r ymennydd sy'n datblygu. Yn hanfodol, mewnbwn synhwyraidd priodol (e.e. drwy glyw a golwg) a pherthnasau sefydlog, ymatebol sy'n adeiladu strwythur ymennydd iach sy'n rhoi sylfaen gref ar gyfer dysgu gydol oes, ymddygiad ac iechyd. Gall diffyg cyfle cyfartal ddechrau yn gynnar mewn bywyd unigolyn. Er enghraifft, erbyn ei ben-blwydd yn bedair oed, bydd plentyn o deulu proffesiynol wedi clywed 45 miliwn o eiriau tra bydd plentyn o deulu sydd ar fudd-daliadau wedi clywed 13 miliwn o eiriau. Mae geirfa plentyn pump oed yn rhagfynegydd cryf iawn o gyflawniadau addysgol pan fydd y plentyn hwnnw o oedran ysgol ac wedi hynny. Mae sgiliau cyfathrebu isel hefyd yn ymddangos yn ystadegol bwysig wrth ragfynegi:

- problemau ymddygiad
- iechyd meddwl
- cyflogadwyedd
- pa mor debygol yw o droi at drosedd

5.3 Gwelir, felly, bod llwyddiant cynnar yn meithrin llwyddiant diweddarach ac mae'r manteision yn cronni, ac i'r gwrthwyneb. Mae'n llawer haws atal diffygion rhag codi yn y blynyddoedd cynnar na cheisio adfer yn hwyrach mewn bywyd. Y newydd da yw ein bod nid yn unig yn gwybod pryd yw'r adegau gorau i ymyrryd (Atodiad 1), ond bod gennym dystiolaeth hefyd ynghylch yr ymyraethau gorau ar adegau gwahanol yn natblygiad plentyn (enghraifft yn Atodiad 2).

5.4 Yn eironig, er gwaethaf y dystiolaeth sy'n awgrymu y cawn y canlyniadau gorau o fuddsoddi mewn pobl yn y blynyddoedd cynnar (gweler Atodiad 3) mae patrymau buddsoddi gwirioneddol yn gwrthddweud y dystiolaeth hon (gweler Atodiad 4).

5.5 Nid yn unig y ceir llawer o dystiolaeth ynghylch effeithlonrwydd ymyraethau penodol, ceir tystiolaeth hefyd ynghylch ymyraethau generig megis gwasanaethau ymyrraeth i deuluoedd[7]. Adroddwyd bod o leiaf hanner y 3,675 o deuluoedd a gafodd ymyrraeth rhwng 2007 a 2011 wedi cael canlyniadau llwyddiannus yn y meysydd a ganlyn:-

- rhiantu gwael (53%)
- perthynas / teulu yn torri i lawr (56%)
- trais yn y cartref (65%)
- trosedd (65%)
- diffyg ymarfer corff / diet gwael (52%)
- camddefnyddio cyffuriau neu sylweddau (50%)
- triwantiaeth, gwaharddiadau neu ymddygiad gwael yn yr ysgol (57%)

Ceir llawer o dystiolaeth hefyd ynghylch yr ymyraethau mwyaf llwyddiannus mewn ysgolion – "*Teaching and Learning Toolkit*" gan *Sutton Trust*[8] ac adroddiad I.P.R.R ar "*Closing the attainment gap in secondary schools*"[9].

5.6 Cesglir felly bod tystiolaeth lefel uchel ddigonol yn dangos y gall dwysáu ein hymdrechion i weithio gyda phlant a theuluoedd gynyddu'n sylweddol ganlyniadau cymdeithasol positif a allai yn eu tro gael effaith ar gyllidebau. Nid oes gymaint o dystiolaeth yn ymwneud â phobl hŷn, ond mae'r dystiolaeth yn arwyddocaol fodd bynnag. Er enghraifft, ceir tystiolaeth dda sy'n dangos y gall ymyraethau un i un megis bod yn gyfaill neu gymuned gefnogol leihau unigrwydd a gwella iechyd a lles unigolion[10].

Mae tystiolaeth hefyd yn dangos bod y risg i bobl hŷn ddisgyn yn lleihau o 32% i 10% os ydynt yn derbyn gwasanaeth megis rhywun yn gwneud swyddi o amgylch y tŷ. Mae model ar gyfer gwasanaethau ataliol i bobl hŷn yn Atodiad 5.

Mae'r dystiolaeth sy'n ymwneud ag ymyraethau iechyd cyhoeddus yn gryf iawn. Mae digon o sgôp i'r Cyngor fod yn bartner mwy effeithiol gyda'r Bwrdd Iechyd i leihau anghydraddoldeb mewn iechyd a gwella iechyd cyffredinol (e.e. 7,000 o weithlu a 18,000 o blant mewn ysgolion).

## 6.0 **GALLUOGWYR HANFODOL**

6.1 Mae nifer o alluogwyr hanfodol sy'n rhagofyniad i sicrhau llwyddiant Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid allweddol os ydym am ddwysáu ac uwchraddio ein hymdrechion i reoli'r galw am wasanaethau.

### 6.2 Adnoddau – Ariannol

Mae sawl ffynhonnell o adnoddau ariannol y gellir eu defnyddio a'u canolbwyntio i gael yr effaith fwyaf:-

- Grantiau'r Llywodraeth – e.e. ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf Gwynedd £1.3m yn 2013/14, Dechrau'n Deg £1.2m yn 2013/14.
- Adnoddau'r Cyngor – mynediad i'r cronfeydd datblygu sydd wedi'u neilltuo ar gyfer strategaeth pedair blynedd y Cyngor. Hefyd, y cronfeydd trawsnewid a buddsoddi i arbed.
- Adnoddau Partneriaid Lleol – e.e. Awdurdodau'r Heddlu ac Iechyd.
- Arian Ewropeaidd – Dyfodol Disgleiriach (blynyddoedd cynnar a phobl ifanc).
- Arian Torfol – sawl swm bach gan grŵp mawr o unigolion[12].
- Nawdd – gan y sector preifat.
- Ffynonellau Elusennol.

### 6.3 Adnoddau – Anariannol

Mae'r model gwasanaeth cyhoeddus traddodiadol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus pobl, wedi bod yn fodel diffyg yn bennaf. Yn gynyddol, mae rhai asiantaethau cyhoeddus yn ceisio newid y diwylliant cyffredinol i fod yn ddull yn seiliedig ar asedau. Mewn gwirionedd, mae hyn yn golygu galluogi unigolion, cymdeithasau a sefydliadau i adeiladu ar eu hasedau yn hytrach na chanolbwyntio ar eu hanghenion.

- Capasiti Unigol – galluogi teuluoedd a phreswylwyr i wneud mwy eu hunain. Gallai hyn olygu cymryd mwy o reolaeth a chyfrifoldeb yn eu bywydau bob dydd e.e. iechyd, ffitrwydd neu ailgylchu. Neu, gallai olygu galluogi mwy o wirfoddolwyr.

- Capasiti Cymunedol – unigolion yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn gwneud cyfraniad ar y cyd e.e. cymryd mwy o reolaeth o ased cymunedol neu ased y Cyngor.

- Aelodau Etholedig – mae Cynghorwyr yn dod â chyfoeth o wybodaeth a phrofiad ynghylch eu cymunedau a gallant weithredu fel cyswllt rhwng cymunedau lleol a gwasanaethau cyhoeddus gan helpu i alluogi asedau lleol.

Mae'r cysyniad cyfan wedi'i grynhoi mewn graff yn Atodiad 6.

Ceir nifer o enghreifftiau o'r dull hwn, gan gynnwys:

- Leeds, ble mae 5,948 o wirfoddolwyr yn helpu i ddarparu gwasanaethau i 17,174 o bobl hŷn.

- *Rochdale Community Champions* ble mae 210 o bencampwyr ynghlwm â helpu i gyflawni 2030 o ganlyniadau cymdeithasol cadarnhaol mewn addysg, trosedd ac ati.

- Cynlluniau Bancio Amser

## 6.4 Defnyddio'r Fethodoleg Gywir

Os yw'r Cyngor a'i bartneriaid am uchafu effaith yr adnoddau y gallwn eu rhoi i reoli'r galw yna mae'n rhaid i ni ddatblygu dull craffach sy'n fwy seiliedig ar fusnes – yn benodol yn nhermau'r isod:-

- Adnabod y meysydd mwyaf effeithiol ar gyfer ymyrryd.

- Targedu'r bobl a'r cymunedau cywir.

- Dewis y ffordd orau i ymyrryd er mwyn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir.

- Dod o hyd i'r ffordd orau o sicrhau ymglymiad pobl a chymunedau.

- Mesur ac arfarnu llwyddiant. Mae Cyngor Nottingham wedi datblygu eu methodoleg eu hunain ar gyfer arfarnu effeithiolrwydd cynnydd ymyrraeth gynnar (Atodiad 7).

## 6.5 Capasiti a Gallu

Er mwyn llwyddo, mae'n rhaid ni gynyddu capasiti a gallu yn y meysydd isod:-

- Dadansoddi – Defnyddio data mewn ffordd systematig er mwyn cael gwell dirnadaeth a dealltwriaeth sydd yn eu tro yn arwain at well penderfyniadau a gwell canlyniadau. Er enghraifft, mae Westminster City Council[13] a'r Scottish Borders Council[14] yn defnyddio gwybodaeth segmentiad cwsmeriaid er mwyn gyrru newid sianeli sy'n arwain at arbedion ariannol.

- Ymchwil – gwella ein hymchwil i'r hyn sy'n gweithio orau i wella gwahanol faterion. Mae'r dystiolaeth sydd ei hangen arnom ar gyfer y rhan fwyaf o feysydd yn bodoli'n barod – gan fwyaf mae'n gwestiwn o ddarganfod a dadansoddi pa mor addas yw ar gyfer ein hanghenion. Er enghraifft, mae NESTA[15] wedi cynhyrchu llawer o ganllawiau yn y maes yma.

- Technegau Newydd – Mabwysiadu technegau newydd er mwyn dylanwadu ar ymddygiad sy'n arwain at gynnydd mewn galw e.e. economeg ymddygiadol a marchnata cymdeithasol. Er enghraifft, fe wnaeth Cyllid y Wlad brofi grym normau cymdeithasol drwy newid mymryn ar eiriad llythyrau oedd yn mynd ar ôl £600m o dreth oedd heb ei dalu. Cynyddodd y raddfa ad-dalu o gyfartaled o 50% i 85%[16].

- Gwerthuso – mae gwerthuso'n bwysig nid yn unig er mwyn uwchraddio gweithgareddau ond hefyd er mwyn adnabod pryd ddylai ymyraethau gael eu dadgomisiynu. Er enghraifft, fe wnaeth peilot dwy flynedd yn ymwneud â 13,500 o blant dan anfantais mewn gofal plant am ddim sefydlu nad oedd unrhyw effaith y gellid ei hadnabod ar ddatblygiad gwybyddol neu gymdeithasol plant ac eithrio ble roedd y lleoliadau o safon uchel.

- Cyrraedd – Deall y ffyrdd gorau o gyrraedd y gynulleidfa darged ac ymgysylltu â nhw yn hytrach na gobeithio y byddant yn dod atom, gan gynnwys defnyddio asiantau yn y gymuned e.e. mae rhai awdurdodau wedi bod yn llwyddiannus iawn yn cynyddu pa mor bell y mae rhaglenni yn cyrraedd drwy ddefnydd cynyddol o gefnogwyr cymheiriaid gwirfoddol sy'n nabod eu cymunedau (Atodiad 8 a 9).

Yn ogystal, mae gofyn deall yn well beth yw natur ddaearyddol a chlystyru rhai materion e.e. amddifadedd wedi'i grynhoi mewn ardaloedd penodol drwy ddefnyddio technegau megis segmentiad geodemograffig.[17]

## 7.0 DADANSODDIAD RISG LEFEL UCHEL

7.1 Yn amlwg mae risgiau ynghlwm â'r strategaeth hon. Ar lefel genedlaethol, byddai gwell aliniad rhwng ein gweledigaeth i reoli'r galw a'r weledigaeth a'r uchelgais genedlaethol yn lleihau'r risgiau. Mae'n wir bod yna gynllun polisi cenedlaethol yn esblygu, ond mae'n un cyfyngedig e.e. mae'r Gwasanaeth Iechyd yn parhau i wario dim ond 4% o'r gyllideb iechyd ar atal ac mae'r DU yn bell y tu ôl i wledydd Llychlyn ar y mater yma.

7.2 Mae risgiau sylweddol ynghlwm â'r angen i gael y sgiliau a'r ddirnadaeth gywir fel y nodir ym mharagraff 6. Fodd bynnag, credaf y gellir lleihau sawl un o'r risgiau yma drwy gydweithio'n effeithiol gyda Phrifysgol Bangor, er enghraifft.

7.3 Risg sylweddol arall yw, er y byddwn o bosib yn medru effeithio'n llwyddiannus ar ganlyniadau cymdeithasol, mae'n bosib na fyddem yn medru cysylltu'r llwyddiant hwn â chyllidebau ac felly gwireddu arbedion. Mae hwn yn risg sylweddol.

7.4 Y prif risg, o bosib, yw y byddwn angen i unigolion, teuluoedd a chymunedau ymgysylltu'n fwy â ni er mwyn cynyddu cydymddibyniaeth ein perthynas. Er mwyn gwneud hyn, byddwn angen i fwy o bobl deimlo a meddwl ein bod ar eu hochr nhw a'n bod ni yma ar eu cyfer. I'r perwyl hwn, prosiect fyddai'n lleihau'r risgiau fyddai un sy'n:-

(i) Arddangos ein parodrwydd i ddefnyddio'n maint a'n grym ariannol i helpu unigolion a chymunedau e.e.

- Newid ynni.
- Dêl Werdd.
- Ymelwa ar ddefnydd cyfyngedig y gronfa pensiwn i helpu gyda materion tai/economaidd.
- Cefnogi Undebau Credyd.
- Prentisiaethau Cyngor.

(ii) Gweithredu cynllun "Ffordd Gwynedd" i newid gwasanaethau'r Cyngor i roi anghenion y cwsmer wrth wraidd cyflwyno a dylunio ein gwasanaethau.

(iii) Gwahodd y cyhoedd i'n helpu ni i ail-ddylunio gwasanaethau sydd, er eu bod yn hanfodol, yn aml yn gallu bod yn rhwystredig i bobl e.e. gwasanaeth wardeiniaid traffig (bydd hyn hefyd yn helpu'r gweithlu sydd hefyd yn aml yn cael eu cam-drin).

7.5 Tra bod risgiau sylweddol ynghlwm â'r strategaeth hon, mae'r risg o beidio â newid yn fwy ac, yn fy marn i, mae'r risg negyddol yn gyfyngedig ond y cyfle cadarnhaol yn wych.

## 8.0 <u>CASGLIAD</u>

8.1 Nid yw mwyafrif y £29m o arbedion cronnus y mae'r Cyngor wedi'u gwneud dros yr wyth mlynedd diwethaf wedi golygu unrhyw doriadau i wasanaeth. Y rheswm am hyn yw bod y Cyngor wedi cynllunio ymhell ymlaen llaw, wedi bod yn bendant, wedi cael systemau da ar gyfer cyflawni cynlluniau arbed ac wedi adfywio'r strategaeth arbedion mewn modd amserol (e.e. y cynllun arbedion £16m).

8.2 Gwyddwn y bydd y wasgfa ar gyllidebau yn dwysáu ac yn parhau am y dyfodol rhagweladwy. Rydym yn ffodus hefyd bod cynlluniau cadarn yn eu lle am y ddwy flynedd nesaf sy'n rhoi amser i ni gynllunio a gweithredu ar gyfer y cyfnod y tu hwnt i hynny. O 2015/16 ymlaen, bydd parhau â strategaeth arbedion effeithlonrwydd yn unig yn annigonol er mwyn osgoi toriadau mewn gwasanaeth. Pe byddwn yn gweithredu strategaeth i reoli'r galw am wasanaethau ar y cyd â'r strategaeth effeithlonrwydd, cawn gyfle i leihau ac oedi'r toriadau i wasanaethau.

8.3 Byddai gan strategaeth rheoli'r galw ddwy gydran gyffredinol:-

A. Lleihau neu ffrwyno lefel y galw.

B. Trosglwyddo costau'r galw i unigolion a chymunedau.

Strwythur bosib ar gyfer mynd i'r afael â'r elfen rheoli'r galw fyddai categoreiddio yn ôl cyfnod bywyd:-

- Plant a Theuluoedd
- Oedolion – gwasanaethau cyffredinol
- Pobl hŷn

gydag iechyd cyhoeddus yn thema sy'n ehangu ar draws bob un o'r cyfnodau bywyd.

8.4 Y blaenoriaethau cyffredinol fyddai:-

- Targedu gwasanaethau i leihau anghydraddoldeb.
- Symud peth adnoddau er mwyn cyflwyno gwasanaethau ataliol.
- Uchafu effaith gwariant.

Dylai hyn arwain at fuddiannau triphlyg o well canlyniadau cymdeithasol, llai o gostau a mwy o wydnwch.

8.5 Er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd o lwyddo, mae nifer o alluogwyr hanfodol y mae angen rhoi sylw iddynt:-

- Adnoddau – Ariannol ac Anariannol
- Methodoleg
- Capasiti a Gallu
- Mabwysiadu Technegau Newydd – e.e. economeg ymddygiadol
- Gwerthuso Prosiectau'n Effeithiol

8.6 Mae nifer o risgiau ynghlwm â'r strategaeth, a gellir lleihau nifer ohonynt drwy weithredu'n briodol. Gellir ystyried y risg gweddilliol fel un llai na'r risg o beidio â gwneud dim byd.

8.7 Mae'r strategaeth yn ymwneud â newid y berthynas gyda dinasyddion o fod yn bobl sy'n derbyn gwasanaethau yn oddefol i fod yn gyfranogwyr gweithredol. O berthynas unffordd yn bennaf i berthynas gynyddol gyd-ddibynnol; perthynas o gydymddibyniaeth yn seiliedig ar hawliau a chyfrifoldebau. Mae gofyn cael dull yn seiliedig ar asedau hefyd, sy'n adeiladu ar gryfderau a chynyddu capasiti unigolion a'r gymuned. Bydd gofyn i'r Cyngor a'i bartneriaid newid pwyslais ein rolau hefyd, er mwyn galluogi ac arfogi mwy yn y gymuned.

8.8 Mae’r angen mwyaf am arweinyddiaeth gref yn codi yn ystod cyfnodau heriol. Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i lywio Gwynedd a’i dinasyddion drwy’r broblem hon ac nid yn unig lleihau’r difrod posib ond, ar y cyd â’r partneriaid, adeiladu model cynaliadwy i wasanaethau cyhoeddus Gwynedd yn y dyfodol.

## 9. **ARGYMHELLION**

9.1 Cymeradwyo’r strategaeth amlinellol fel sail ar gyfer yr isod:-

- Ymgysylltiad ffurfiol â phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Galluogi adnoddau ariannol mewnol ac allanol i gefnogi cyfnod cynllunio a gweithredu’r strategaeth.
- Ennill y sgiliau a’r capasiti angenrheidiol i fod yn llwyddiannus.
- Gwerthuso’r hyn sy’n gweithio’n dda ar hyn o bryd ac adnabod bylchau yn y ddarpariaeth.
- Ymgysylltu â’r cyhoedd er mwyn sefydlu gwell dealltwriaeth o sut all dinasyddion a gwasanaethau cyhoeddus weithio’n well gyda’i gilydd i ymdopi â’r her ariannol.
- Sefydlu trefniadau llywodraethu priodol, sy’n adeiladu ar strwythurau presennol (os yw hynny’n bosib) er mwyn sicrhau cynnydd llwyddiannus.
- Rhai o’r blaenoriaethau yn y cynllun strategol pedair blynedd yn cael eu cyflwyno i’r Cyngor ym mis Mai.

**H. Thomas,**
**Prif Weithredwr.**

**Chwefror 2013.**